**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 15.12.2025
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Delme Phillips, Cyng. Bryan Davies, Cyng.Aled Jones, a'r Cyng.Julian Evans.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Robin Bowen.

Croesawodd y Cynghorydd Amy Evans (Cadeirydd) aelodau'r Cyngor i'r cyfarfod.

**71. Datgelu Buddianau Personol:**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.

**72. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.11.25 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Bryan Davies.

**73. Cynllunio**
**PL/10216 -** Codi adeilad amaethyddol gyda'r gwaith cyseilltiedig ar gyfer wyna a storfa gyffredinol -Bwlchyrallt, Cwmduad, Caerfyrddin SA33 6AT – Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r Cais hwn.
**PL/10244** - Annedd newydd arfaethedig gan gynnwys dymchwel yr adeilad presennol a'r gwaith cysylltiedig - Plas Parciau, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6TE – Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais hwn.

**74. Materion i'w hadrodd**
a. Materion Priffyrdd: - Nodwyd bod bae llwytho wedi'i osod erbyn hyn y tu allan i Siop Bentref a'r Swyddfa Bost Cynwyl Elfed.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.

**75. Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 26.01.2026 ar lein- cynrychiolwr wedi ei henwebu Cyng. Bryan Davies, yr ail cynrychiolwr Cyng. Delme Phillips a'r trydydd cynrychiolwr Cyng. Elfed Davies. Dim ond un cynrychiolwr sydd i fynychu'r cyfarfod.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth breswylydd yng Nghynwyl Elfed ynghylch maes parcio'r Neuadd - cynnwys y llythyr wedi'i i nodi - penderfynodd y Cyngor y byddai'n cysylltu â Phwyllgor Neuadd Cynwyl Elfed ynghylch materion a godwyd ynghylch maes parcio'r neuadd, a chynghori'r ymatebydd i gysylltu â'r partïon perthnasol ynghylch y materion eraill a godwyd.
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu - Mynnwch ddweud eich dweud ar gyllid a blaenoriaethau'r heddlu - Penderfynwyd ei bod hi'n bwysig i bawb ymateb i'r arolwg hwn a bod y clerc i ymateb ar ran y Cyngor yn ôl y cyfarwyddyd.

**76. Taliadau a Chyllid**

**(a)**Taliadau a Chyllid

| | |
|---|---|
| • Maria Thomas Magic Mops - Tachwedd 2025 | £230.00 |
| • ME Davies Clerc Cyflog 11/25 | £309.90 |
| • EDF D.U. - 01.11.25-30.11.25 | £ 46.17 |
| • Dŵr Cymru 26.4.25-20.10.25 | £1304.89 |

- Cyngor Sir Gaerfyrfddin Apêl Teganau Nadolig £ 50.00 (wedi ei gymeradwyo m.75 cyfarfod mis Tachwedd).

*Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.*

***ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU***

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 Tachwedd 2025 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

**77. Materion Priffyrdd:**

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 15.12.25***

Dymunai'r Cynghorydd E. Jones gydnabod a diolch I'r Cynghorydd Bryan Davies am gyfarfod â Swyddogion y Cyngor Sir I ddatrys y broblem gyda draenio dŵr yng Nghwmduad a bod y gwaith yn man uchaf Cwmduad yn mynd ymlaen. Mae'r Cyng. BD hefyd wedi bod i wirio'r broblem gyda'r ffordd yng Nghwm Hagar a hefyd gyda swyddogion i archwilio'r Cwlfert sydd wedi ei blocio yn Esgair. Mae'r Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddiolch iddynt am yr holl waith a wnaed hyd yn hyn yn ardal Cynwyl Elfed. Mae'r Cyngor yn falch o nodi bod y twll yn y ffordd a adroddwyd wrth y gyffordd â'r C2043 yng Nghynwyl Elfed wedi'i atgyweirio'n iawn gyda "hotbox" a'i selio.

a) Penlanchwilor i Penheol - Mae twll yn y ffordd wedi'i lenwi ond mae Rhan o'r draen yn sticio allan - peryglus i draffig, adroddwyd am teiars yn cael eu difrodi.
b) Penlanchwilor i Clunbach - Mae'r ffos ar ochr y ffordd wedi'i blocio.
c) C1313 o Cynwyl Elfed i'r Ficerdy - malurion yn cronni ar y palmant.
d) C1313 o Cynwyl Elfed i'r Fynwent - mae wyneb y ffordd mewn cyflwr gwael iawn.
e) B4333 yn SA33 6SU - Tro Rhydygwin - Mae damweiniau'n parhau i ddigwydd er bod y terfyn cyflymder wedi'i ostwng i 30 mya a mae yno arwyddion clir mewn lle - angen danfon cais ymlaen at y Cyngor Sir i wella'r tro.

**78. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau—**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Mae'r bil diwethaf oddi wrth Dŵr Cymru wedi codi'n sylweddol - Buodd y clerc mewn cysylltiad a Dŵr Cymru er mwyn cael gwybod os oedd yn bosibl i gael anfoneb pob mis er mwyn monitro - mae hyn yn bosib ond bydd rhaid i'r Cyngor darllen y mesurydd unwaith y mis a danfon y darlleniad ymlaen at Dŵr Cymru.
- Bydd Maria Thomas, glanhwr i ffwrdd ok'r 22/12/25 am 10 diwrnod. Cyng. E. Davies, J.Evans a'r clerc i drefnu rota. Mae hefyd angen sylw ar y tu allan oherwydd bod dail a chwyn wedi cynyddu.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Adroddodd y Cyng. Amy Evans bod ffens newydd wedi ei godi o amgylch rhan Bro Elfed y maes chwarae, ond bod y ffens wrth ochr y ffordd fawr mewn cyflwr gwael. Bwriedir codi ffens o amgylch gweddill y cae chwarae.
- **Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed**
- Mae pwyllgor y Neuadd yn chwilio am gwirfoddolwyr i beintio'r Neuadd.

**79. Unrhyw Fater Arall.**

- *Hyfforddiant -* Un Llais Cymru-ceisiadau am hyfforddiant gweminar am ddim - tynnodd y clerc sylw at bwysigrwydd modiwl 24 YPecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu - rhoddodd y clerc cyswllt a chyfrinair wefan Un Llais Cymru i'r cynghhorwyr er mwyn iddynt weld dyddiadau hyfforddi cyn iddynt rhoi gwybod i'r clerc i drefnu'r hyfforddiant.

**80. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**
Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **19 Ionawr 2026** am**: 7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 20.40 awr.

……………………………………………………………
Cadeirydd.
……………………………………………………………
Dyddiad.